



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Prifysol Felindre

Rhagoriaeth Cynaliadwyedd: Ein Strategaeth 2023 - 2033

Sicrhau ein bod yn cyfrannu at fyd gwell i genedlaethau'r dyfodol yn ein cymuned a ledled y byd... gweithredu heddiw, ar gyfer yfory mwy cynaliadwy.



Cynnwys

Rhagair 01

Rhagymadrodd 04

Pam Mae Angen Strategaeth Cynaliadwyedd Arnom? 05

Ble Ydym Ni Nawr? 06

Symud Ymlaen, Symud yn Gyflymach 08

Yr Hyn Yr Ydym Am Ei Gyflawni 09

Rhagoriaeth Cynaliadwyedd - Ein Themâu 10

Creu gwerth ehangach: ein dull sefydliadol

Modelau gofal cynaliadwy

Carbon sero

Seilwaith cynaliadwy

Trawsnewid i ddyfodol o ynni adnewyddadwy

Defnydd cynaliadwy o adnoddau

Cysylltu â natur

Gwneud ein teithio a'n trafnidiaeth yn fwy gwyrdd

Addasu i newid hinsawdd

Ein pobl fel cyfryngau newid

Mesur Ein Llwyddiant 20

Rhagair

Croeso cynnes iawn i 'Rhagoriaeth Cynaliadwyedd', gweledigaeth a strategaeth cynaliadwyedd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Rydym yn falch iawn o'r gofal a'r gwasanaethau rhagorol a ddarparwn i gleifion, rhoddwyr, ystod eang o bartneriaid a'n hanes o lwyddiant.

Rydym yn poeni'n fawr am y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn gweld yn glir y gwahaniaeth y bydd dull cynaliadwy ar draws y sefydliad yn ei wneud i'n cefnogi i wella ansawdd, diogelwch, profiad a chanlyniadau'r gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar ein gorffennol, wrth i ni edrych i'r dyfodol ac mae strategaeth yr Ymddiriedolaeth 'Cyrchfan 2033' yn gosod cyfeiriad clir i'r sefydliad dros y blynyddoedd i ddod wrth i ni geisio cyflawni ein pwrpas a'n gweledigaeth.

Ein pwrpas:

Gwella Bywydau

Ein Gweledigaeth:

Gofal Ardderchog,
Dysgu Ysbrydoledig,
Pobl Iachach

Rydym wedi nodi pum nod strategol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y blynyddoedd i ddod. Credwn y bydd cyflawni'r nodau hyn yn gweld yr Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau i gleifion, rhoddwyr a'n partneriaid sy'n cymharu â'r gorau yn y DU ac Ewrop.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Ymddiriedolaeth, gydag ystod eang o gyfleoedd o'n blaenau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd technoleg ddigidol, gwasanaethau digidol, gwybodaeth a dirnadaeth dda wrth ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a'n nodau hirdymor.

Mae "Rhagoriaeth Cynaliadwyedd" yn nodi ein gweledigaeth a'n strategaeth cynaliadwyedd ar gyfer y deng mlynedd nesaf, a bydd yn ein helpu i drawsnewid gwasanaethau iechyd, ac iechyd, ledled Cymru.

Nod Strategol 1:

Eithriadol o ran ansawdd,
diogelwch a phrofiad

Nod Strategol 2:

Darparwr o fri rhyngwladol o
wasanaethau clinigol eithriadol
sydd bob amser yn bodloni
disgwyliadau ac yn rhagori arnynt

Nod Strategol 3:

Sefydliad disglair ar gyfer
ymchwil, datblygu ac arloesi
yn ein meysydd blaenoriaeth

Nod Strategol 4:

Ymddiriedolaeth Prifysgol
sefydledig sy'n darparu
gwybodaeth a dysg werthfawr
iawn i bawb

Nod Strategol 5:

Sefydliad cynaliadwy sy'n
chwarae ei ran i greu dyfodol
gwell i bobl ledled y byd



Rhagarweiniad

Fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru rydym yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd arnom ni, gan y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu, i wneud y wlad yn lle gwell i fyw, gweithio a mwynhau. Rydym yn cydnabod yn llawn yr effaith a gawn ar yr amgylchedd, y cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt, y bobl yr ydym yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer a'r staff sy'n gweithio i ni.

Mae ein Strategaeth Ymddiriedolaeth 'Cyrchfan 2033' yn amlinellu uchelgais clir ar gyfer y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod; darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn darparu gwerth ehangach i'n cymunedau. Mae cyflawni'r strategaeth yn rhoi heriau cyffrous i ni a fydd yn gofyn i ni barhau i fynd ar drywydd rhagoriaeth yn ein gwasanaethau clinigol, wrth gyfrannu at gyfoeth, iechyd a ffyniant ledled Cymru.

Rydym yn gyffrous iawn i nodi ein taith tuag at gynaliadwyedd yn y Strategaeth Gynaliadwyedd, a'r manteision y bydd yn eu gwireddu dros y blynyddoedd i ddod. Fel sefydliad angori, rydym wedi ymrwymo i wreiddio cynaliadwyedd yn ein sefydliad ein hunain a dod yn esiampl yng Nghymru.

Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd hon yn darparu map ffordd ar gyfer cyflawni dyfodol cynaliadwy a fydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau clinigol o ansawdd uchel wrth leihau ein heffaith ar y blaned, a darparu ystod ehangach o fuddion i'r cymunedau rydym yn gweithio ac yn byw ynddynt.

Pam Mae Angen Strategaeth Newydd Arnom?

Ar draws ein holl wasanaethau a'r system iechyd a gofal ehangach, mae'n amlwg bod pethau'n newid:

Rydym yn gwasanaethu poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, gydag amrywiaeth o heriau lleol yn ymwneud ag iechyd, afiechyd ac anghydraddoldebau, sy'n gofyn inni gydlynw a chydgyssylltu gofal yn well.



Mae disgwyliadau pobl yn newid gyda'r disgwyliad rhesymol y bydd ein gwasanaethau'n cael eu personoli i'w hanghenion. Mae ein hadeiladau, ein cyfleusterau a'n mannau gwyrdd yn rhan hanfodol o brofiad cleifion, rhoddwyr a staff, maent yn ganolog i wella iechyd meddwl a llesiant, a byddant yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu cymunedau ffyniannus a chadarn.



Mae Cymru iachach yn nodi llwybr clir i symud o afiechyd i lesiant. Mae lleihau effaith amgylcheddol ac iechyd ein hystad yn flaenoriaeth i GIG Cymru.



Mae technoleg, y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol, yn rhoi cyfle i ofal iechyd drawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, gan gynyddu'r gwerth i gleifion, rhoddwyr a'n partneriaid mewn ffordd fwy cynaliadwy.



Mae angen inni leihau allyriadau carbon, ysgogi effeithlonrwydd ynni, lleihau plastigion a gwastraff, gwella ansawdd aer a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon i symud o afiechyd i les.



Yr argyfwng hinsawdd a'r angen i ddatblygu dull cynaliadwy o fyw ar y blaned; her fyd-eang y mae angen inni ymateb iddi.



Ble Ydym Ni Nawr?

Rydym yn cydnabod, yn anochel, bod ein gweithrediadau o ddydd i ddydd yn cael effaith ar yr amgylchedd. Mae'r GIG yn gyfrifol am 2.6% o gyfanswm yr ôl-troed carbon yng Nghymru. Mae angen defnyddio adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac i ddarparu amgylchedd cyfforddus i gleifion, rhoddwyr, staff ac ymwelwyr.

Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i drosglwyddo i fyd newydd, cynaliadwy sy'n lleihau'r defnydd o adnoddau ac yn creu gwerth ehangach.

84%



Canran y staff ar hyn o bryd sy'n gyrru mewn Cerbyd Meddiannaeth Sengl i'r gwaith

1,001,378tCO²e

Cyfanswm allyriadau carbon GIG Cymru 2018/19

24232m³


Cyfanswm defnydd yr Ymddiriedolaeth o ddŵr yn 2018/19



Allyriadau Cwmpas 1 a 2 yr Ymddiriedolaeth 2018/19


Mae Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru yn defnyddio'r data o 2018/19 fel y llinell sylfaen i gyfrifo targedau allyriadau wrth symud ymlaen.

Nwy 37% 888.58 tCO₂e
Trydan 63% 1533.9 tCO₂e



Patrymau Cymudo Staff yr Ymddiriedolaeth

Trên 1%
Bws 2%
Beic modur 1%
Beicio 4%
Rhannu car 2%
Cerdded 6%
Cerbydau Deiliadaeth Sengl 84%



Dadansoddiad Tunnell Ffrwd Gwastraff ar gyfer 2018/19

Cyfanswm gwastraff: 239.29t

Wedi'i gompostio 1% 3.1t
Wedi'i losgi gyda adferiad ynni 26% 77.13t
Tirlenwi 33% 97.68t
Wedi'i Ailddefnyddio/Ailgylchu 40% 118.122t

Symud ymlaen, symud yn gyflymach

Rydym yn angerddol am gynaliadwyedd ac rydym yn gwybod bod ein gweithlu a’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu’n angerddol hefyd. Mae gennym nod syml; dod yn sefydliad cynaliadwy sy’n chwarae ei ran i greu dyfodol gwell i bobl ledled y byd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol arloesol 2015 (y “Ddeddf”), a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cyfle cyffrous i Gymru arwain y ffordd yn rhyngwladol, ac mae’r strategaeth hon yn amlinellu ein nodau cynaliadwyedd ac yn galluogi gweithredu gwirioneddol i greu newid cadarnhaol a sylweddol.

Mae Banc y Byd yn rhagweld erbyn 2050 y bydd 143 miliwn o ffoaduriaid hinsawdd - Ymfudwyr amgylcheddol yw pobl sy’n cael eu gorfodi i adael eu rhanbarth cartref oherwydd newidiadau sydyn neu hirdymor i’w hamgylchedd lleol.

Mae’r strategaeth hon yn dechrau cyfnod newydd o ymgysylltu agos a chydweithio ag eraill i rannu ein hadnoddau, ac i gydweithio i wneud mwy â’r hyn sydd gennym ar y cyd. Bydd angen ymdrech ar y cyd gan bob un ohonom i gyflawni ein huchelgeisiau.

Mae’r Ddaear ar y trywydd iawn i golli hyd at un o bob chwech o’i holl rywogaethau, os bydd allyriadau carbon yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

Er mwyn gwireddu’r weledigaeth hon, rydym yn nodi’r hyn yr ydym am ei gyflawni ynghyd â deg thema y byddwn yn canolbwyntio arnynt i gyflawni ein huchelgeisiau. Caiff y rhain eu llywio gan Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, sydd gyda’i gilydd yn sicrhau ein bod yn cyflawni Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth.

Mae 6^{ed} Adroddiad Asesu’r Panel Rhynglywodraethol ar Newidiadau yn yr Hinsawdd yn nodi bod y dystiolaeth yn glir: mae’r amser i weithredu yn awr. Mae angen i’r byd haneru allyriadau erbyn 2030 ac mae’r blynyddoedd nesaf yn hollbwysig.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

Ein gweledigaeth: sefydliad cynaliadwy sy’n cyfrannu at fyd gwell ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol yn lleol a ledled y byd

- Darparu gwasanaethau cynaliadwy sy’n ychwanegu gwerth cymdeithasol ehangach i’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu
- Cael ein cydnabod fel sefydliad enghreifftiol o ran cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol
- Cynnydd net o ran bioamrywiaeth a mwynhad o’n mannau gwyrdd i wella iechyd a lles
- Bod yn garbon ‘Sero Net’
- Defnyddio isafswm o adnoddau yn effeithlon: dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025 a lleihau’r defnydd o ynni a dŵr

Ein Themâu

Rydym wedi nodi nifer o themâu allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt i gyflawni ein huchelgeisiau i ddod yn sefydliad cynaliadwy. Ym mhob thema rydym yn nodi’r hyn yr ydym am ei gyflawni, ein hamcanion a’r camau y byddwn yn eu cymryd.

- 1. Creu Gwerth Ehangach: Ein Dull Sefydliadol**
- 2. Modelau Gofal Cynaliadwy**
- 3. Carbon Sero**
- 4. Seilwaith Cynaliadwy**
- 5. Newid i Ddyfodol o Ynni Adnewyddadwy**
- 6. Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau**
- 7. Cysylltu â Natur**
- 8. Gwneud Ein Teithio a’n Trafnidiaeth yn Fwy Gwyrdd**
- 9. Addasu i Newid Hinsawdd**
- 10. Ein Pobl fel Cyfryngau Newid**

Thema 1:

Creu Gwerth Ehangach: Ein Dull Sefydliadol

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Gwreiddio cynaliadwyedd yn ein sefydliad a chreu mwy o werth i'r bobl rydym yn gweithio iddynt a'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Ein hamcanion yw:

- Sicrhau bod cynaliadwyedd wedi'i wreiddio yn ein cydwybod sefydliadol a'n prosesau gwneud penderfyniadau
- Gwella bywyd pobl sy'n byw yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Cynnal strategaeth gynaliadwyedd uchelgeisiol a chyfredol
- Adrodd fel mater o drefn ar berfformiad yn erbyn ein nodau cynaliadwyedd i uwch reolwyr, y Bwrdd, y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach
- Cydweithio â byrddau iechyd rhanbarthol ac artistiaid lleol i greu rhaglen gelfyddydol i wella lles cleifion, rhoddwyr, staff ac ymwelwyr. Mae ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi dangos bod rhaglenni tebyg yn gwella'r profiad o driniaeth tra'n cefnogi'r economi leol, diwylliant ac integreiddio cymunedol pellach

- Gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i ysgogi'r buddion mwyaf o'n gweithgareddau caffael tra'n lleihau allyriadau
- Gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac i rannu ein gwybodaeth a'n dysgu yn eang ag eraill
- Mabwysiadu egwyddorion y Siarter Creu Lleoedd, a gweithio gyda'n cymunedau lleol a phartneriaid i wneud y mwyaf o fanteision ein hadnoddau i ysgogi ffyniant, iechyd a chyfoeth
- Chwarae rhan weithredol fel Sefydliad Angori, gan greu gwerth cymdeithasol ehangach i gymunedau lleol trwy gyfleoedd cyflogaeth a chyfrannu at ffyniant economaidd a chymdeithasol y gymuned leol
- Cefnogi ein byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i wella iechyd a llesiant y boblogaeth
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi sut y gall pobl ddefnyddio ein hadeiladau fel ased cymunedol

Thema 2:

Modelau Gofal Cynaliadwy

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym eisiau darparu gofal o'r ansawdd uchaf sy'n lleihau ein heffaith ac sy'n cefnogi ein taith i blaned gynaliadwy.

Ein hamcanion yw:

- Gwella cynaliadwyedd amgylcheddol ein llwybrau gofal
- Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a gwasanaethau digidol i leihau effaith amgylcheddol gofal iechyd
- Cydweithio â chleifion, rhoddwyr a'n partneriaid i ddarparu modelau gofal sy'n lleihau nifer yr ymweliadau â'n safleoedd drwy ddarparu gofal yn y cartref, neu'n nes at y cartref

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Nodi manau problemus o ran carbon yn ein gwasanaethau clinigol a fferyllol, a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith i liniaru effaith a dod o hyd i ddewisiadau eraill
- Addysgu staff am wasanaethau effaith carbon uchel, offer a fferyllol, a'u hannog a'u cefnogi i archwilio dewisiadau eraill

- Datblygu ein modelau gwasanaeth clinigol sy'n seiliedig ar fodel 'hyb a lloerennau'; ceisio darparu mwy o wasanaethau yn y cartref ac yn lleol lle bo'n briodol
- Cyflawni ein strategaeth ddigidol a fydd yn cynyddu mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a gofal i bobl drwy ddyfeisiau symudol a gwisgadwy



Thema 3:

Carbon Sero

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym am fod yn sefydliad carbon sero net.

Ein hamcanion yw:

- Cyfrannu at gynlluniau GIG Cymru i fod yn garbon sero net erbyn 2030
- Bod yn sefydliad carbon sero

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Rhoi ein cynllun lleihau carbon ar waith sy'n cynnwys camau gweithredu i:
 1. lleihau yr allyriadau o'n hystad a'n cyfleusterau
 2. lleihau ein defnydd o ynni
 3. ôl-ffitio ein hadeiladau presennol i wella defnydd effeithlon o ynni
 4. lleihau'r gwastraff rydym yn ei gynhyrchu
 5. gwyrddio ein gweithgareddau caffael a datgarboneiddio ein cadwyn gyflenwi
- Lleihau teithio diangen sy'n gysylltiedig â'n gwasanaethau
- Lleihau ôl-troed yr ystad i'r maint gorau posibl sy'n bodloni gofynion gweithredol

- Cysylltu gofynion lleihau carbon a chynaliadwyedd yn ein prosesau busnes craidd a'n prosesau gwneud penderfyniadau, e.e. achosion busnes, caffael, datblygiadau seilwaith
- Cyflymu ein hymagwedd at weithio ystwyth, gan alluogi o leiaf 30% o'n staff i weithio o bell

Thema 4:

Seilwaith Cynaliadwy

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Darparu adeiladau sy'n gwella lles ein cleifion, rhoddwyr a staff i leihau ein heffaith amgylcheddol.

Ein nod yw:

- Lleihau effaith amgylcheddol gwaith adeiladu yn ystod y cyfnodau dylunio, adnewyddu, adeiladu, gweithredu a datgomisiynu

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Datblygu canllawiau cynaliadwyedd ar gyfer pob prosiect cyfalaf gan gynnwys gwaith adnewyddu mawr, a hybu effeithlonrwydd adnoddau drwy weithredu ein Strategaeth Ystadau
- Dylunio i safon ragorol BREEAM fel safon ofynnol ym mhob un o'n hadeiladau newydd yn y rhaglen gyfalaf fawr, ynghyd â'r gofyniad iddynt gael eu datblygu gan ddefnyddio egwyddorion yr economi gylchol
- Blaenoriaethu mynediad i natur, golau naturiol, awyru, mannau gwyrdd a seilwaith teithio llesol hawdd ei gyrraedd wrth ddatblygu ac adnewyddu ystad yr Ymddiriedolaeth

- Buddsoddi mewn amrywiaeth o adeiladau a chyfleusterau newydd sy'n cynnwys:
 1. gwaith adnewyddu mawr ac uwchraddio seilwaith Gwasanaeth Gwaed Cymru (Llantrisant) erbyn 2026
 2. adeiladu Canolfan Loeren Radiotherapi yn Nevill Hall erbyn 2024
 3. adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yn 2025/2026
- Gweithio gyda chontractwyr i ddefnyddio dull costio cylch bywyd cyfan ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr, adnewyddu adeiladau ac adeiladau newydd
- Datblygu ein gallu i bwysu a mesur a defnyddio canlyniadau gwerth cymdeithasol yn ein penderfyniadau wrth gaffael gwasanaethau newydd wrth ddylunio ac adeiladu gofod newydd, e.e. defnyddio cadwyn gyflenwi leol a busnesau bach a chanolig

Thema 5:

Newid i Ddyfodol o Ynni Adnewyddadwy

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym am leihau ein gofynion ynni cyffredinol a phontio i ffynonellau adnewyddadwy.

Ein hamcanion yw:

- Lleihau ein defnydd o ynni 70% a gwella effeithlonrwydd dŵr flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Prynu 100% o'n hynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2027

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Gwella ein mesur a monitro o ynni ar draws ein hystâd
- Cyflwyno rhaglen o gynlluniau effeithlonrwydd ynni a dŵr wedi'u targedu i leihau'r defnydd
- Gwreiddio arferion mwy effeithlon a thechnolegau newydd, gan helpu i hybu ymwybyddiaeth staff a hybu effeithlonrwydd cyfleustodau yn ein bywydau bob dydd
- Ymateb yn gyflym i unrhyw aneffeithlonrwydd ynni y gellir ei atal megis gorboethi neu ollyngiadau trwy systemau monitro a chanfod gollyngiadau effeithiol

- Deall effeithiau cadwyn werth gyfan y cynhyrchion a ddefnyddiwn a goblygiadau cynaliadwyedd ein modelau gofal a gwasanaeth. Bydd hyn hefyd yn gofyn am ffocws ar gefnogi cyflenwad lleol cynaliadwy o wasanaethau a chynhyrchion priodol
- Cyflwyno technolegau newydd i gefnogi rheolaeth a rheoli adnoddau

Thema 6:

Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym am leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu adnoddau a mabwysiadu dull economi gylchol fel 'y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yma'.

Ein hamcanion yw:

- Lleihau ein gwastraff 33% erbyn 2030 yn unol â thargedau 'Y Tu Hwnt i Ailgylchu' Llywodraeth Cymru
- Cyflawni 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' erbyn 2025
- Ailgylchu 70% o'n gwastraff erbyn 2025

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Canolbwyntio ein gweithredu ar blastig drwy:
 1. cymhwyso'r system hierarchaeth gwastraff, ailfeddwl am fodelau gwastraff traddodiadol a gweithio'n agos gyda'n staff a'n cadwyn gyflenwi i symud tuag at economi gylchol
 2. darparu mentrau i leihau gwastraff gan gynnwys:
 - Mentrau bwyd: lleihau, aildddefnyddio a thriniaeth gynaliadwy
 - Mentrau plastig: targedu'r 15 grŵp cynnyrch plastig sy'n cyfrannu at y mwyafrif helaeth o wastraff, a disodli cynhyrchion untro a phlastig gyda dewisiadau eraill y gellir eu haildddefnyddio pan a lle mae opsiwn hyfyrw a charbon is
 - Hyrwyddo diwylliant o aildddefnyddio, ail-bwrpasu, adnewyddu a throsglwyddo eitemau pan a lle bo modd e.e. dodrefn ac offer

- Datblygu cynllun sy'n nodi ein trawsnewid i ynni adnewyddadwy sy'n cynnwys:
 - pennu ynni adnewyddadwy pan fyddwn yn gwneud trefniadau prynu ynni newydd
 - pennu potensial hyfyrw ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau (ar y safle neu o ffynonellau)
- Gweithio gyda Chaffael Partneriaeth a Rennir GIG Cymru a phartneriaid eraill i gaffael nwyddau a gwasanaethau gyda'r safonau uchaf o gyfrifoldeb cynhyrchwyr sy'n lleihau pecynnu, a chynnig atebion amgen i leihau gwastraff ac opsiynau cymryd yn ôl

Thema 7:

Cysylltu â Natur

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym am wneud y gorau o ansawdd a buddion ein mannau gwyrdd, adeiladau, cyfleusterau ac adnoddau i wella natur, bioamrywiaeth a llesiant.

Ein hamcanion yw:

- Gwella llesiant ein cleifion, rhoddwyr a staff trwy eu cysylltiad â'r amgylchedd naturiol
- Cynyddu bioamrywiaeth trwy warchod a gwella asedau naturiol
- Gwneud y mwyaf o ansawdd a buddion ein mannau gwyrdd

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o fanteision byd natur ar gyfer lles corfforol a meddyliol
- Gweithio gyda chymunedau lleol, y sector gwirfoddol a busnesau i nodi sut y gallwn sicrhau bod ein tir, ein hadeiladau a'n cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol ehangach sy'n cefnogi iechyd a lles
- Datblygu Cynllun Gwella Bioamrywiaeth (BEP) sy'n nodi sut y byddwn yn sicrhau cynnydd net mewn bioamrywiaeth, e.e. trwy leihau torri gwair, hau blodau gwyllt, cael gwared ar rywogaethau ymledol ar bob safle, adnewyddu safleoedd a datblygu adeiladau newydd
- Dylunio gwasanaethau, adeiladau a chyfleusterau sy'n rhoi'r cyfle i bobl gysylltu â mannau gwyrdd a natur yn ein lleoliadau

- Creu ystod eang o weithgareddau a rhaglenni diwylliannol sy'n cyfoethogi'r lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddo. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni celfyddydol, rhandiroedd, llwybrau natur ar ein hystad, buddion cymunedol a gweithgareddau hygyrch
- Rhoi cyfleoedd i gleifion, rhoddwyr a staff gymryd rhan mewn mentrau llesiant ar ein safleoedd sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol ehangach, megis arddangosfeydd celf, cerdded, ioga, cadw gwenyn, cynlluniau garddio, canu ac ati
- Datblygu ein hymagwedd at ddarparu bwyd a gynhyrchir yn lleol i leihau'r effaith amgylcheddol a datblygu gwydnwch lleol, e.e. cynlluniau tyfu bwyd lleol ac ymgorffori cynnyrch lleol yng ngwasanaethau arlwygo'r Ymddiriedolaeth
- Gwneud y defnydd gorau o'n mannau gwyrdd i helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd e.e. plannu coed ychwanegol a dal a storio carbon
- Defnyddio presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd fel dull cyfannol o driniaeth i wella profiad y claf trwy eu cysylltu â'r amgylcheddau naturiol cyfagos

Thema 8:

Gwneud Ein Teithio a Thrafnidiaeth yn Fwy Gwyrdd

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym am leihau'r effeithiau ar iechyd sy'n gysylltiedig â'n busnes a chefnogi trawsnewid yn y ffordd yr ydym yn teithio.


Ein hamcanion yw:

- Datgarboneiddio ein gweithrediadau trafnidiaeth a theithio
- Annog teithio cynaliadwy a llesol lle bynnag y bo modd a cheisio lleihau milltiroedd busnes 70%
- Darparu mwy o ofal a gwasanaethau yn y cartref neu'n agosach at gartref

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Cryfhau ein Cynllun Trafnidiaeth Werdd i gynyddu'r defnydd o deithio cynaliadwy a llesol
- Gweithio gyda'n partneriaid strategol i gysylltu ein hystad yn well â thrafnidiaeth integredig leol er mwyn lleihau effaith traffig, a chynyddu'r defnydd o ddulliau amgen (e.e. cerdded, seiclo, bws/metro)
- Gwella opsiynau teithio gwyrdd a mynediad at ein gwasanaethau, adeiladau a chyfleusterau i gleifion, rhoddwyr a staff
- Trydaneiddio ein fflyd a defnyddio dulliau eraill o deithio at ddibenion gweithredol

- Gwella ein cyfleusterau i staff sy'n teithio'n egniol i'r gwaith e.e. cyfleusterau cawod a newid
- Mynd ati i farchnata cynllun beicio i'r gwaith yr Ymddiriedolaeth, rhannu ceir a defnyddio'r bws/metro am brisiau gostyngol i weithwyr y gwasanaeth cyhoeddus



Thema 9:

Addasu i Newid Hinsawdd

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym am sicrhau bod ein sefydliad wedi'i baratoi'n dda i reoli effeithiau newid hinsawdd.

Ein hamcanion yw:

- Asesu a deall effeithiau newid hinsawdd ar ein gwasanaethau a'n cymunedau
- Sicrhau bod ein seilwaith, gwasanaethau, gweithgareddau caffael a chymunedau lleol wedi'u paratoi'n dda i'w lliniaru a'u rheoli

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddadansoddi'r data sydd ar gael, deall ei risgiau a'i effaith, a datblygu atebion
- Buddsoddi mewn technolegau lliniaru a mabwysiadu i adeiladu gwydnwch yn ein gwasanaethau



Thema 10:

Ein Pobl fel Cyfryngau Newid

Beth ydym ni am ei gyflawni?

Rydym am ddatblygu gweithlu sy'n gosod cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein hamcanion yw:

- Cefnogi staff i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen fel y medrant gyfrannu'n weithredol at wella prosesau cynaliadwyedd, yn y gwaith a gartref
- Grymuso staff i wneud dewisiadau cynaliadwy yn y gwasanaethau a ddarparwn ac sy'n gwella eu lles

Byddwn yn cyflawni'r rhain drwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno rhaglenni addysg ac ymwybyddiaeth i amlygu pwysigrwydd cynaliadwyedd, a rhoi cyfleoedd i staff gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth
- Darparu canolbwyt gwybodaeth o adnoddau i bob aelod o'n gweithlu gael mynediad iddynt, eu galluogi a'u cefnogi i gyflawni arfer cynaliadwy
- Cynnwys cynaliadwyedd ym mhob disgrifiad swydd ac adolygiad perfformiad
- Datblygu cymunedau ymarfer ac amrywiaeth o 'Arwyr Cynaliadwyedd' sy'n gallu darparu arweiniad, brwdfrydedd a hwyl i annog cyfranogiad
- Annog staff i fanteisio ar gyfleoedd i ddilyn rhaglenni ffurfiol i gynyddu ein harbenigedd, e.e. gradd a/neu MSc

- Cryfhau ein cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy gynyddu cyfleoedd prentisiaeth, cefnogi lleoliadau gwaith gyda phrifysgolion lleol a thrwy weithio'n agos gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Integreiddio cynaliadwyedd yn ein portffolio ymchwil, datblygu ac arloesi i ddatblygu sylfaen dystiolaeth rymus sy'n dangos y manteision
- Cefnogi ymchwil ac archwilio materion yn ymwneud â gofal iechyd cynaliadwy a materion amgylcheddol

Mesur Ein Llwyddiant

Mae’r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddangos arweiniad ym maes cynaliadwyedd ac mae’r cynllun cynhwysfawr hwn yn cynnig llwybr iddi gyflawni gwelliannau sylweddol, gyda chymorth ei staff, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill.

Creu Gwerth Gyda’n Cymunedau: Ein Dull

- Creu offeryn asesu gwerth cymdeithasol (TOMs)
- % y prentisiaethau/lleoedd myfyrwyr a gynigir i gymunedau lleol
- % o asedau adeiladu sydd ar gael i’w defnyddio gan randdeiliaid cymunedol lleol ac (i) % argaeledd i’r gymuned leol a ddefnyddiwyd
- Gwerth cymdeithasol: archwiliadau buddion cymunedol
- % o nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd yn lleol

Modelau Gofal Cynaliadwy

- % o gleifion/rhoddwyr yn graddio’r gofal a gânt yn rhagorol
- % o gleifion/rhoddwyr yn graddio’r amgylchedd yn rhagorol
- % o gleifion sy’n derbyn gofal gartref neu yn y gymuned leol
- % o ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ddigidol

Dileu Carbon

- Rheoli ac adrodd ar ddadansoddiad manwl o ôl-troed carbon
- % o allyriadau CO2 wedi’u lleihau
- % o ôl-troed carbon o weithgareddau caffael

Prosiectau Cyfalaf ac Isadeiledd

- % o adeiladau newydd ac adnewyddu yn cyflawni Rhagoriaeth BREEAM
- Costau cylch bywyd (cynaliadwyedd) gwaith adnewyddu mawr ac adeiladau newydd
- % o’n fflyd hybrid neu drydan

Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau

- Adrodd sero net blynyddol i Lywodraeth Cymru
- Defnydd o ddŵr
- Defnydd o ynni
- Defnydd o nwy
- Ffurflen Flynyddol EFPMS
- % o ynni o ffynonellau adnewyddadwy
- % yn llai o wastraff yn gyffredinol:
 1. % o wastraff i safleoedd tirlenwi
 2. % yn cael ei ailgylchu

Cysylltu â Natur

- Gwerth cyfalaf naturiol
- Cynnydd bioamrywiaeth net o’r archwiliad sylfaenol yn 2019
- % o goed sy’n goed newydd a blannwyd (o’r ystad gyfan)

Addasu i Newid Hinsawdd

- Adeiladau rhagorol BREEAM
- Ansawdd aer ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth
- Graddfa risg yn fframwaith sicrwydd yr Ymddiriedolaeth

Teithio a Logisteg

- % o staff yn cerdded i’r gwaith
- % o staff yn beicio i’r gwaith
- % o staff yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio i’r gwaith
- % o staff yn rhannu ceir
- % o deithiau car deiliadaeth sengl i’r gwaith
- % o staff yn gweithio o gartref
- Lleihau’r milltiroedd busnes y flwyddyn

Ein Pobl fel Cyfryngau Newid

- % o staff yn cael cyfnod sefydlu cynaliadwyedd
- Cyfrifiannell Gwerth Cymdeithasol (TOMs)
- Ymwybyddiaeth staff o gynaliadwyedd (arolwg staff blynyddol)
- % o absenoldeb salwch
- % o staff yn ein hargymell fel cyflogwr



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Cyrchfan 2033